

DOLEN Y TAB – 45

5–6 MAWRTH 2021

OEDFA RITHIOL 7 MAWRTH

Yng nghwmni'r Parchg. Aled Edwards.

OEDFAON MIS MAWRTH

- 14 Edwyn Evans.
21 Y Parchg. Gethin Rhys.
28 Emlyn Davies.

Hefyd ar 7 Mawrth . . .

11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yng ngofal Aled a Delyth Wyn Davies,
Gofalaeth Chwilog a'r Cylch.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Jason Jones, Treforys.

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul

www.cristnogaeth21.cymru

Pen blwydd hapus!

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Dilwen Davies, Llantrisant oedd yn dathlu pen blwydd arbennig iawn ddydd Mercher 3 Mawrth.

Apêl

Diolch i bawb sydd eisoes wedi gwirfoddoli i gyfrannu at yr oedfaon yn 2021. Os oes rhagor ohonoch sy'n barod i gyfrannu, yna cysylltwch gyda Geraint Rees (geraintrees@hotmail.com / 07816 341527). Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o oedfaon am weddill y flwyddyn.

Diolch yn fawr.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd nos Fawrth nesaf, 9 Mawrth. Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei godi yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk 01443 225205 / 07710 237327) erbyn bore Llun 8 Mawrth, os gwelwch yn dda.

Cenn@d

Yn gynharach yr wythnos hon, lanswyd rhifyn cyntaf yr wythnosolyn *Cenn@d* ar y cyd rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb y Bedyddwyr. Bydd y cyhoeddiad cyd-enwadol newydd yn disodli'r *Goleuad* a *Seren Cymru*. Ond yn wahanol i'r ddau bapur hynny, fersiwn digidol yn unig gaiff ei gynhyrchu a hynny'n rhad ac am ddim: (<http://www.cennad.cymru>). Mae'r rhifyn cyntaf yn hynod o ddeniadol i'r llygad ac yn cynnwys amrywiaeth ddiddorol o erthyglau, gan gynnwys y 'stori flaen' ardderchog gan Mererid Hopwood, '*Cennad dyn yw bod yn frawd*', a ysbrydolwyd gan un o gerddi enwocaf Waldo Williams, 'Y Tangnefeddwyr'. Dymunwn bob llwyddiant i'r fenter newydd.

Dyfodol Y Tyst

Y cwestiwn naturiol i'w holi yw pam nad yw'r *Tyst* yn rhan o'r wythnosolyn cyd-enwadol newydd? Wel dyma'r ateb a gafwyd yn rhifyn yr wythnos ddiwethaf o'r papur. Er i Undeb yr Annibynwyr dderbyn gwahoddiad i ymuno yn y fenter, gwnaed penderfyniad i barhau i gynhyrchu'r *Tyst* fel cyhoeddiad ar wahân er mwyn gofalu rhoi sylw teilwng i ledaenu newyddion am waith yr Undeb a gweithgareddau'r eglwysi annibynnol ledled Cymru.

Er hynny, bydd *Y Tyst* a *Cenn@d* yn parhau gyda'r drefn – a sefydlwyd ers dros ugain mlynedd – o gyhoeddi rhai tudalennau sy'n gyffredin i'r ddau gyhoeddiad. Deallwn hefyd fod rhai o ddarllenwyr *Y Tyst* wedi bod yn pryderu bod bwriad i roi'r gorau i argraffu *copi papur* o'r *Tyst*, ond fe'u darbwyllyd nad oedd unrhyw fwriad, ar hyn o bryd, i ddirwyn y fersiwn papur i ben. Yn rhifyn yr wythnos hon, cyhoeddir rhagor o fanylion am yr arlwy newydd y gellir ei ddisgwyl yn y *Tyst* dros y cyfnod nesaf. (<https://annibynwyr.org/tyst>).

**Cofiwch am
Bythefnos
Masnach Deg**

22/2/2021–
7/3/2021



Dau Gymwynaswr

Un sydd wedi derbyn cyhoedduswydd sylweddol am ei haelioni yn ystod y pandemig yw'r gantores werin Dolly Parton, a hynny am iddi gyfrannu miliwn o ddoleri i uned ymchwil Canolfan Feddygol Prifysgol Vanderbilt yn UDA. Defnyddiwyd cyfran o'r arian i'w cynorthwyo i ddatblygu'r brechlyn Moderna.


Ond nid dyma oedd ei chymwynas ddyngarol gyntaf, na'r un fwyaf pellgyrhaeddol chwaith.

Yn ôl yn 1995, ychydig cyn iddi droi'n hanner cant oed, ac eisoes wedi ennill cyfoeth anferth yn sgil ei llwyddiant ym maes adloniant, sefydlodd y *Dolly Parton's Imagination Library*, yn ei sir enedigol yn Tennessee. Nod y cynllun oedd anfon llyfrau lliwgar o safon drwy'r post am ddim i blant dan 5 oed er mwyn meithrin cariad ynddynt at lyfrau ac at ddarllen. Fe'i hysgogwyd wrth gofio am dlodi enbyd ei magwraeth fel un o 12 o blant, ond i'w phlentyndod gael ei 'gyfoethogi' gan iddi dderbyn anogaeth i fwynhau llyfrau. Dros y chwarter canrif ers ei sefydlu, mae'r *Imagination Library* wedi mynd o nerth i nerth. Bellach mae 'canghennau' wedi codi bron ym mhob talaith yn UDA a hefyd yn Canada, y Deyrnas Gyfunol, Awstralia a Gweriniaeth Iwerddon. Y llynedd, adroddwyd fod dros 150 miliwn o lyfrau wedi eu dosbarthu drwy'r cynllun, a bellach dosberthir tua dwy filiwn o gyfrolau drwy'r rhwydwaith rhyngwladol yn flynyddol.



Diwydiannwr Llwyddiannus

Os mai ei llwyddiant yn y diwydiant adloniant yw prif ffynhonnell cyfoeth Dolly Parton, yna ei allu fel diwydiannwr arloesol oedd i gyfrif am y cyfoeth anhygoel oedd ym mediant Andrew Carnegie erbyn troad yr ugeinfed ganrif. Fe'i ganwyd yn Dunfermline yn fab i wehydd, ond pan gollodd y tad ei waith ar ddiwedd y 1840au ymfudodd y teulu i Pennsylvania pan oedd Andrew yn fachgen tair ar ddeg oed. Ond pwy feddyliai y byddai modd i blentyn i fewnfudwyr tlawd ddringo o'r swydd fwyaf dinod mewn melin gotwm i fod y person mwyaf cyfoethog yn y byd hanner can mlynedd yn ddiweddarach yn dilyn gwerthu ei gwmni, y *Carnegie Steel Corporation*, yn 1901 am 480 miliwn doler? Fel perchennog gwaith dur, nid oedd yn gwbl dilychwin wrth ymdrin â'i weithlu, yn arbennig felly ymateb ei gwmni i Streic Homestead yn 1892 – digwyddiad a niweidiodd ei enw da fel cyflogwr.



Andrew Carnegie
1835–1919

Cymwynaswr Dyngarol

Heddiw, nid gyda'r diwydiant dur y byddwn yn cysylltu enw Andrew Carnegie ond yn hytrach fel un a rannodd ei gyfoeth er lles y ddynoliaeth drwy ffurfio

sefydliadau dyngarol niferus sydd wedi 'cyfoethogi' bywydau miliynau lawer mewn nifer o wledydd. Ond roedd yn ddigon hirben i ofalu nad oedd ei waddol yn cael ei afradu gan fynnu amodau a olygai bod y cyfrifoldeb am gynaliadwyedd prosiectau dros amser yn disgyn ar ysgwyddau'r gymuned oedd yn elwa o'r nawdd. Er enghraifft, talu am godi'r adeilad oedd cyfraniad ymddiriedolaeth llyfrgelloedd cyhoeddus Carnegie, ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn gofalu am gyflogi staff ac archebu stoc o lyfrau. Codwyd llyfrgelloedd cyntaf Carnegie mewn lleoliadau roedd ganddo gysylltiad personol â nhw megis ei dref enedigol, Dunfermline a'i dref fabwysiedig yn UDA. Erbyn diwedd y 1920au roedd dros 2,500 o 'lyfrgelloedd Carnegie' wedi eu codi, yn bennaf yn UDA a Phrydain. O'r rhain roedd nifer yma yng Nghymru – rhai, fel ym Mhenarth, yn parhau i wasanaethu fel llyfrgell, ac eraill fel ym Mhentre'r Eglwys wedi ei addasu'n neuadd y plwyf.



Hen Lyfrgell
Pentre'r Eglwys

Cymhellion Carnegie

Er bod ei deulu'n aelodau o'r Eglwys Bresbyteraidd, ni ellir honni i'w mab fod yn amlwg mewn gweithgareddau eglwysig. Fel llawer o'i gyfoeswyr deallus, ysigwyd ei ffydd pan gyhoeddwyd canfyddiadau Darwin. Ond yn ystod ugain mlynedd olaf ei fywyd does dim amheuaeth chwaith mai dysgeidiaeth yr efengyl a glywodd pan yn blentyn oedd un o'r dylanwadau pennaf ar ei ddaliadau. Yn wir, roedd rhai o'i ddatganiadau enwocaf yn adleisio craidd y ffydd Gristnogol, er enghraifft:

'The man who dies rich dies disgraced . . .' a
'Who so wants to share the heroism of battle, let him join the fight against ignorance and disease and the mad idea that war is necessary.'

Nid wrth ei eiriau y mae mesur ei fawredd, ond yn hytrach trwy ei weithredoedd dyngarol i gefnogi darllen ac addysg i drwch y boblogaeth, a'i haelioni i fudiadau oedd yn hyrwyddo heddwch rhyngwladol. Mae'n arwyddocaol iawn iddo, ym mlynnyddoedd olaf ei fywyd, fynychu oedfaon yn y Madison Avenue Presbyterian Church, eglwys oedd yn arddel daliadau'r '*social gospel*'. Mudiad oedd hwn oedd yn credu'n gryf iawn mewn cymhwyso gwerthoedd Cristnogol i broblemau cymdeithasol megis newyn a thlodi, anghyfiawnder economaidd, hiliaeth a pheryglon rhyfeloedd.

Fel Dolly Parton, nid anghofiodd Carnegie am ei wreiddiau caled a thlawd nac ychwaith y gefnogaeth i ddarllen llyfrau yn ei ddyddiau cynnar. Hyn a'i ysgogodd i ddefnyddio'i gyfoeth fel bod miliynau eraill dros y cenedlaethau yn medru derbyn yr un gefnogaeth a ddaeth i'w ran yntau.